| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **18 Ebrill 2016** |
| **TEITL :** | **Ceisiadau am oddefeb** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y ceisiadau** |

## Cefndir

1. Derbyniwyd ceisiadau am oddefeb gan y Cynghorwyr Anne Lloyd-Jones a Richard Vaughan, aelodau o Gyngor Tref Tywyn ac atodir copi o'i ffurflenni cais (Atodiadau 1 & 2). Mae'r ceisiadau yn ymwneud â maes carafanau y mae'r Cyngor Tref yn ei berchen, sef Parc Carafanau a Gwersylla Ynysymaengwyn.

2. Rhoddwyd darn o dir (Ynysymaengwyn) i ragflaenydd Cyngor Tref Tywyn er budd y cyhoedd, gan greu Ymddiriedolaeth Ynysymaengwyn. Y cyngor, fel corfforaeth, yw'r unig ymddiriedolwr, a bydd yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r ymddiriedolaeth drwy bwyllgor penodol sy'n un o bwyllgorau'r cyngor . Fel y gwelir wrth y cais, mae pob aelod o'r cyngor yn aelod o'r pwyllgor, a'r Cyng. Lloyd-Jones sy'n cadeirio.

3. Mae'r cyngor hefyd yn berchen ar Barc Carafanau a Gwersylla Ynysymaengwyn, sy'n safle carafanau masnachol. Mae tua 115 o garafannau 'static' a lle i tua 50 o garafanau teithio a phebyll ar y safle. Roedd y safle hwn ar un adeg ar ran o dir yr Ymddiriedolaeth, ond erbyn hyn mae'n cael ei redeg fel busnes ar wahân, er bod yr elw yn cael ei roi i'r ymddiriedolaeth.

4. Mae'r cyngor yn cyflogi rheolwr a staff i redeg y safle. Mae gan y cyngor bwyllgor penodol i reloi'r safle, sef Pwyllgor Rheoli Safle Carafanau Ynysymaengwyn. Bydd y pwyllgor yn penderfynu ar faterion megis y ffioedd sydd i'w codi, cyflogau staff, prynu adnoddau ac offer newydd i'r busnes. Mae pob aelod o'r cyngor yn aelod ohono. Cadeirydd y Cyngor fydd yn cadeirio'r pwyllgor yma.

5. Mae'r cynghorywr felly yn gofyn am oddefeb i gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Pwyllgor Safle Carafanau Ynysymaengwyn gan bod ganddynt fuddiannau sy'n rhagfarnu drwy eu cysylltiadau â safleoedd carafanau cyfagos.

## Ystyriaethau

6. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu goddefeb os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol. Mae'r sefyllfaoedd yma wedi eu rhestri yn y nodiadau amgaeedig (Atodiad 3). Rhaid i'r Pwyllgor felly ystyried os yw'r ceisiadau yn dod o fewn un o'r sefyllfaoedd hyn.

7. Os yw'n fodlon ei fod yn dod o fewn un o'r categorïau hyn rhaid i'r Pwyllgor wedyn ystyried a ddylid caniatáu i'r aelod gael cymryd rhan er bod y Cod

Ymddygiad yn darparu na ddylai gael gwneud hynny. Mae'r Cod Ymddygiad yn darparu nad ddylai aelod sydd â buddiant sy'n rhagfarnu mewn mater gymryd unrhyw ran mewn penderfyniad ar y mater hwnnw. Pwrpas hyn yw rhoi hyder i'r cyhoedd bod penderfyniadau yn cael eu gwneud er y budd gorau iddynt hwy, nid budd gorau aelodau neu bobl mae ganddynt gysylltiad personol agos â nhw.

8. Mae canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad yn nodi'r canlynol mewn cysylltiad â goddefebau:

*"Bydd angen i'r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioladol."*

**Argymhelliad**

9. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar y ceisiadau gerbron.